**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 CHWEFROR 2016**

**Adroddiad gan:** Cyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

**Pwnc:** Cytundeb Partneriaeth (Awdurdodau ac Ysgolion)

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno, er gwybodaeth, y cytundeb Partneriaeth rhwng chwe Awdurdod Lleol y gogledd a'u hysgolion.

## 2.0 Cefndir

2.1 O dan Adran 197 Deddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio cytundeb partneriaeth â chorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod. Pwrpas y cytundeb yw cynnal a gwella'r bartneriaeth bresennol rhwng yr ALlau a'r ysgolion.

2.2 Rhaid i'r cytundeb nodi sut y bydd ALl a chorff llywodraethu yn cyflawni eu priod swyddogaethau statudol mewn perthynas ag ysgol ac mewn perthynas â diwallu anghenion pob disgybl yn unol â Deddf Addysg 1996 / Deddf Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anabledd 2001 / Côd Ymarfer AAA Cymru 2002.

2.3 Adolygir y cytundeb bob tair blynedd o leiaf, a bydd unrhyw adolygiad yn dechrau chwe mis cyn y dyddiad y daw i ben. Dylid nodi hefyd bod y cytundeb yn cyfeirio at nifer o bolisïau y bydd angen eu hadolygu yn fwy rheolaidd na hyn.

## 3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys y Cytundeb Partneriaeth.

**4.0 Goblygiadau Ariannol**

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o’r adroddiad hwn.

**5.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o’r adroddiad hwn.

**6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o’r adroddiad hwn.

**7.0 Ymgynghori a wnaed**

7.1 Datblygwyd y cytundeb gan Fwrdd Rheoli GwE.

**8.0 Atodiadau**

8.1 Atodiadau Lleol Cynllun Busnes GwE

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Sylwadau i’w cyflwyno ar lafar yn y cyfarfod.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Credaf fod elfennau ariannol a chyllidebol y ‘Cytundeb Partneriaeth’ arfaethedig sydd gerbron y Cyd-bwyllgor yn lled adlewyrchu’r sefyllfa a’r gofynion ariannol a chyllidebol cyfredol o fewn yr awdurdodau lleol unigol (e.e. tud. 6 - gweinyddu ariannol i fod yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor, tud. 7 - ysgolion i sicrhau’r gwerth gorau wrth ddefnyddio adnoddau cyhoeddus, tud. 14 - mewn amgylchiadau eithriadol caiff awdurdod lleol atal hawl y corff llywodraethu i gael cyllideb ddirprwyedig, ayb).  Cyflwynir unrhyw sylwadau ychwanegol ar hyn, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor.